Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Cyllideb 'frys' 2010

## Hysbysiad Hwylus

Gorffennaf 2010

## Cyflwyniad

Cyflwynodd Canghellor y Trysorlys (George Osborne) Gyllideb 'frys' 2010[1] Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar 22 Mehefin 2010. Mae'r Gyllideb yn nodi'r canlynol:

> This Budget sets out a five year plan to rebuild the British economy based on the Government's values of responsibility, freedom and fairness. It shows how the Government will carry out Britain's unavoidable deficit reduction plan in a way that strengthens and unites the country.[2]

Mae'r Gyllideb yn nodi pa gamau fydd y Llywodraeth yn eu cymryd mewn tri maes: **lleihau'r diffyg arian**, **menter** a **thegwch**. Mae'n nodi bod y Llywodraeth wedi pennu mandad cyllidol blaengar er mwyn gwneud y canlynol:

> **…achieve cyclically-adjusted current balance by the end of the rolling, five-year forecast period. At this Budget, the end of the forecast period is 2015-16.**[3]

Bydd targed ar gyfer dyled net y sector cyhoeddus (fel canran o'r cynnyrch mewnwladol crynswth) i ostwng ar gyfradd sefydlog erbyn 2015-16 hefyd yn sail i'r mandad cyllidol.

## Effaith ar Gymru

Does dim **symiau canlyniadol uniongyrchol i Gymru** wedi'u cynnwys yng Nghyllideb 2010.[4] Nes i ganlyniadau'r **Adolygiad o Wariant gael eu cyhoeddi ar 20 Hydref 2010, does dim ffigurau dangosol ar gyfer bloc Cymru dros y flwyddyn nesaf, na'r blynyddoedd sydd i ddod**.

Fodd bynnag, mae'r arwyddion cynnar o'r Gyllideb yn awgrymu, yn dilyn yr adolygiad o wariant, **y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru wynebu toriadau o tua £2 biliwn dros y pedair blynedd nesaf (tua £500 miliwn bob blwyddyn).**[5] Mae hyn yn ychwanegol i'r £163 miliwn[6] a gyhoeddwyd ym mis Mai 2010[7], fel rhan o'r toriadau ar gyfer 2010-11.

---

[1] Trysorlys ei Mawrhydi, **Budget 2010**, 22 Mehefin 2010 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[2] Trysorlys ei Mawrhydi, **Budget 2010** tudalen 1 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[3] Trysorlys ei Mawrhydi, **Budget 2010** tudalen 1 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[4] Cadarnhawyd hyn i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau gan swyddogion Trysorlys ei Mawrhydi.
[5] Gwefan BBC News, Budget ignores Wales' needs, says Carwyn Jones, 23 Mehefin 2010 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[6] Ceir rhagor o wybodaeth yn Hysbysiad Hwylus Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau: **Effaith gostyngiadau gwariant y Deyrnas Unedig ar Gymru** (Mai 2010) [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[7] Trysorlys ei Mawrhydi, ***Reducing the Government deficit***, 24 Mai 2010 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

Mewn datganiad i'r wasg ar 22 Mehefin, awgrymodd Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, fod Llywodraeth Cymru yn cynllunio cyllideb y flwyddyn nesaf ar y ragdybiaeth y bydd **gostyngiad o dri y cant mewn refeniw a gostyngiad o ddeg y cant mewn cyfalaf** o flwyddyn i flwyddyn.[8]

Nododd y Gweinidog hefyd fod iechyd, addysg a sgiliau yn parhau i fod yn flaenoriaethau gan Lywodraeth Cymru a bod y Llywodraeth yn parhau i ymrwymo i brosiectau buddsoddi cyfalaf.[9] Mae'r Prif Weinidog (Carwyn Jones) hefyd wedi nodi bod polisïau Llywodraeth Cymru am bresgripsiynau am ddim, brecwast mewn ysgolion am ddim a'r cynllun teithio rhatach yn parhau i fod yn flaenoriaethau gan y Llywodraeth.[10]

## Lleihau diffyg arian y Deyrnas Unedig

Mae Cyllideb 2010 yn nodi:

> The most urgent task facing this country is to implement an accelerated plan to reduce the deficit. Reducing the deficit is a necessary precondition for sustained economic growth. To continue with the existing fiscal plans would put the recovery at risk, given the scale of the challenge. High levels of debt also put an unfair burden on future generations.[11]

Mae'r Gyllideb yn cyhoeddi cynlluniau i ddileu'r diffyg, sy'n cynnwys:

- **£32 biliwn y flwyddyn erbyn 2014-15 drwy leihau gwariant**. Nodir bod y rhain i ddod o wariant presennol (hy refeniw) yn bennaf. Mae'r gostyngiadau hyn yn cynnwys cynlluniau i wneud **£11 biliwn o arbedion ym maes diwygio lles**, gan gynnwys mabwysiadu'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mynegeio budd-daliadau, credydau treth a phensiynau sector cyhoeddus o fis Ebrill 2011. Mae'r Gyllideb hefyd yn cyhoeddi y bydd cyflog unrhyw un sy'n ennill mwy na £21,000 y flwyddyn **yn y sector cyhoeddus yn cael ei rewi am ddwy flynedd**; a
- **£8 biliwn y flwyddyn drwy gynyddu treth net**. Mae hyn yn cynnwys **cynyddu cyfradd safonol TAW i 20 y cant** a chyfradd safonol a chyfradd uwch Treth Yswiriant Premiwm i 6 y cant ac 20 y cant o fis Ionawr 2011.

Aiff y Gyllideb ymlaen i nodi:

> The Budget and the plans the Government inherited represent a total consolidation of £113 billion per year by 2014-15 and £128 billion per year by 2015-16, of which £99 billion per year comes from spending reductions and £29 billion per year from net tax increases. By 2015-16, 77 per cent of the total consolidation will be delivered through spending reductions.[12]

Mae'r rhagolygon cyllidol yn y Gyllideb, fel y'u paratowyd gan y **Swyddfa â Chyfrifoldeb dros y Gyllideb**, yn nodi:

- Amcangyfrifir y bydd benthyciadau net y sector cyhoeddus yn gostwng o £155 biliwn yn 2009-10 i £37 biliwn yn 2014-15. Amcangyfrifwyd yng Nghyllideb mis Mawrth 2010 mai cyfanswm benthyciadau net y sector preifat rhwng 2009 a 10 a 2014 i 15 fyddai £734 biliwn. Mae'r Gyllideb bresennol **yn lleihau'r swm o £128 biliwn** i £606 biliwn.
- Amcangyfrifir y bydd dyled net y sector cyhoeddus yn cyrraedd ei uchafswm yn 2013-14, sef £1,235 biliwn, cyn dechrau gostwng yn 2014-15. Yn ôl Cyllideb mis Mawrth, bydd y ddyled net yn parhau i godi i £1,405 yn 2014-15. Felly, **amcangyfrifir y bydd y ddyled net yn is ac y bydd yn lleihau'n gynt** nag y meddyliwyd yn flaenorol.

---

[8] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, **Cyflawni prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth i Gymru**, 22 Mehefin 2010 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[9] Yn yr un man
[10] Gwefan BBC News, **Budget ignores Wales' needs, says Carwyn Jones**, 23 Mehefin 2010 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[11] Trysorlys ei Mawrhydi, **Budget 2010**, 22 Mehefin 2010 tudalen 1 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[12] Trysorlys ei Mawrhydi, **Budget 2010**, 22 Mehefin 2010 tudalen 2 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

Mae'r gyllideb bresennol mewn diffyg drwy gydol y cyfnod dan sylw. Rhagwelir y bydd y diffyg hwn yn gostwng o £106 biliwn yn 2009-10 i £1.7 biliwn yn 2014-15, ac yn **cyrraedd sero yn 2015-16**. Mae hyn yn cymharu ag amcangyfrifon yng Nghyllideb mis Mawrth sy'n dangos diffyg o £117 biliwn sy'n gostwng i £51 biliwn yn 2014-15.

## Prif gyhoeddiadau polisi'r Deyrnas Unedig

Mewn perthynas â 'menter', mae'r Gyllideb yn nodi, os yw'r cynnydd yn mynd i fod yn gynaliadwy, y bydd rhaid iddo fod yn seiliedig ar y canlynol:

> ...an expansion in the private sector, not the public sector, and businesses across all regions and industries need the right conditions to be able to grow.
>
> This Budget sets out a plan to support business and restore the UK's diminished competitiveness. The Government will give businesses more freedom by reducing regulation and tax rates, while refocusing support towards infrastructure, the low-carbon economy, and regional development.[13]

Mae'r cyhoeddiadau polisi yn y Gyllideb sy'n ymwneud â 'menter' yn cynnwys:

- **Cyfradd treth gorfforaethol ostyngol** o 28 y cant i 24 y cant dros bedair blynedd o fis Ebrill 2011; gostyngiad yng nghyfraddau enillion bach i 20 y cant o fis Ebrill 2011 a gostyngiad yn y brif gyfradd a'r gyfradd arbennig o lwfans cyfalaf i 18 ac 8 y cant ym mis Ebrill 2010.
- **Cynnydd yn y Gwarant Cyllid Menter** o £200 miliwn a chreu Cronfa Twf Cyfalaf newydd.
- **Gwrthdroi'r cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol i gyflogwyr** drwy godi'r trothwy £21 yr wythnos uwchben y mynegai ym mis Ebrill 2011. **Gall hyn arwain at arbedion o tua £140 miliwn yng Nghymru.[14]**
- **Cronfa Dwf Ranbarthol** yn 2011-12 a 2012-13 i gefnogi'r cynnydd o ran twf busnesau a chyflogau busnesau, a chynllun a fydd yn golygu bod busnesau mewn ardaloedd penodol yn cael gostyngiadau sylweddol mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol i gyflogwyr. **Gall hyd at 27,000 o fusnesau yng Nghymru elwa o'r cynllun hwn**.[15]

Mewn perthynas â 'thegwch', mae Cyllideb 2010 yn nodi:

> The Government will ensure that every part of society makes a contribution to deficit reduction while supporting the most vulnerable, including children and pensioners. The Government will also seek to build over the long term a fair tax and benefit system that rewards work and promotes economic competitiveness.[16]

Mae'r datganiadau polisi yn cynnwys y canlynol:

- **Bydd lwfans personol i bobl o dan 65 oed yn cael ei gynyddu £1,000 ym mis Ebrill 2011**, gyda'r cynydd yn gyfyngedig i gyfraddau sylfaenol trethdalwyr. Bydd oddeutu **1.1 miliwn o drethdalwyr yng Nghymru yn elwa o hyn**.[17]
- **Gwella'r systemau budd-dal tai, budd-dal anabledd a chredyd treth** i'w gwneud yn fwy teg ac yn fwy fforddiadwy. Bwriad y gwelliannau hyn yw lleihau dibyniaeth a hyrwyddo gwaith.

---

[13] Trysorlys ei Mawrhydi, **Budget 2010**, 22 Mehefin 2010 tudalen 2 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[14] Datganiad i'r wasg gan Drysorlys ei Mawrhydi, ***Budget Report 2010 for Wales***, 22 Mehefin 2010 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[15] Datganiad i'r wasg gan Drysorlys ei Mawrhydi, ***Budget Report 2010 for Wales***, 22 Mehefin 2010 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[16] Trysorlys ei Mawrhydi, **Budget 2010**, 22 Mehefin 2010 tudalen 4 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[17] Datganiad i'r wasg gan Drysorlys ei Mawrhydi, ***Budget Report 2010 for Wales***, 22 Mehefin 2010 [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

- **Bydd Budd-dal Plant yn cael ei rewi** am dair blynedd i helpu i gyllido **cynnydd sylweddol yn y Credyd Treth Plant**. **Bydd credydau treth yn cael eu lleihau** i deuluoedd sy'n ennill mwy na £40,000 o fis Ebrill 2011.
- **Bydd Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth yn cael ei gynyddu** gan warant driphlyg o enillion, prisiau neu 2.5 y cant, pa bynnag un sydd uchaf, o fis Ebrill 2011. **Amcangyfrifir y bydd 0.6 miliwn o bensiynwyr yng Nghymru yn elwa o hyn**.
- **Bydd treth ar enillion cyfalaf yn cael ei gynyddu** i 28 y cant ar gyfer trethdalwyr ar y gyfradd uwch a'r gyfradd ychwanegol, gyda chynnydd yn nherfyn rhyddhad am oes entrepreneuriaid i £5 miliwn.
- Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno **ardoll yn seiliedig ar fantolenni banciau** o 1 Ionawr 2011, gyda'r bwriad o annog banciau i symud i broffiliau cyllido sydd â llai o risg. Bydd y Llywodraeth hefyd yn cymryd camau yn erbyn bonysau banc annerbyniol.
- Bydd y Llywodraeth yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yn Lloegr i **rewi'r dreth gyngor yn 2011-12**.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am agweddau ar Gyllideb 'Frys' 2010, cysylltwch â **Dr Eleanor Roy** (**Eleanor.Roy@wales.gov.uk**) yng Ngwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.
I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, dilynwch y lincs.

- Trysorlys ei Mawrhydi, **Cyllideb Mehefin 2010** (Saesneg yn unig)
- **Cyllideb 2010** (Mawrth 2010) y Llywodraeth Lafur flaenorol. Gweler hefyd bapur gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau: **Cyllideb y Canghellor 2010** (Ebrill 2010) (Saesneg yn unig)
- **Swyddfa â Chyfrifoldeb dros y Gyllideb** a **Rhagolygon Rhag-gyllidebol** y Swyddfa (14 Mehefin 2010) (Saesneg yn unig)
- Hysbysiad hwylus gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau: **Effaith gostyngiadau gwariant y Deyrnas Unedig ar Gymru** (Mai 2010)

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 10/1761**
**Dr Eleanor Roy**